

Adnewyddu'n awtomatig

O 25 Awst 2016, bydd y llyfrgell yn cyflwyno system adnewyddu'n awtomatig newydd ar gyfer eitemau safonol (benthyca am 4 wythnos).

Byddwn yn adnewyddu eich eitemau yn awtomatig 7 diwrnod cyn bod yr amser yn dod i ben fel na chewch ddirwy am anghofio i adnewyddu eich llyfrau. Ni fyddwn yn eich dirwyo dim ond os ydych yn dal gafael ar lyfr y mae rhywun eraill wedi ei archebu (os bydd rhywun wedi ei alw yn ôl).

Nid yw hyn yn golygu y gallwch anghofio'n llwyr am eich llyfrau. Mewn gwirionedd, bydd angen ichi gadw golwg am negeseuon e-bost o'r llyfrgell i weld a yw eich llyfrau wedi cael eu hadnewyddu neu a oes angen i chi fynd â nhw yn ôl.

Sut fydd yn gweithio?

- Byddwn yn adnewyddu'n awtomatig pob un o'r eitemau cymwys rydych wedi eu benthyca, 7 diwrnod cyn y dyddiad rydych i fod i'w dychwelyd.
- Bydd hyn yn digwydd yn y gynnar yn y bore ac anfonir neges e-bost at eich cyfrif e-bost prifysgol i roi gwybod a fu'r broses o'u hadnewyddu yn llwyddiannus **neu beidio**. Bydd angen i chi wirio i weld a oes angen dychwelyd rhywbeth i rywun arall.
- Os na fydd unrhyw eitem wedi ei adnewyddu, mae'n rhaid i chi ei ddychwelyd erbyn y dyddiad penodedig neu cewch eich dirwyo.
- Bydd dirwyon am eitemau a alwyd yn ôl ac sy'n hwyr yn cael eu dychwelyd yn parhau i fod yn £1 y dydd, am bob eitem.
- Ni chaiff eitemau eu hadnewyddu mwy na 14 o weithiau. Ar ôl hynny, mae'n rhaid i'r eitemau gael eu dychwelyd i'r llyfrgell i brofi nad ydych wedi eu colli neu eu difrodi.
- Nid yw benthyciadau cyfnod byr (benthyciadau 24 awr a 3 diwrnod) a benthyciadau i ddefnyddwyr allanol wedi eu cynnwys yn y drefn hon ac ni chânt eu hadnewyddu'n awtomatig.

Galw Eitemau'n Ôl - Gellir galw llyfrau'n ôl ar unrhyw adeg. Efallai y cewch hysbysiad galw eitem yn ôl hyd yn oed os nad yw'r llyfr wedi bod gennych am fwy nag ychydig o ddyddiau. Yn y sefyllfa hon, byddem yn canslo'r dyddiad dychwelyd gwreiddiol a rhoi dyddiad newydd i chi ei ddychwelyd.

Cofiwch ofyn am eitemau rydych eu hangen - Mae'r ffaith bod llyfrau llyfrgell yn cael eu hadnewyddu'n awtomatig yn wych, ond mae'n golygu os ydych eisiau eitem sydd ar fenthyg i rywun arall mae'n rhaid i chi wneud cais amdano. Os na wnewch chi hynny, gall y cyfnod benthyca gael ei ymestyn.

Mae gwneud cais am eitem yn syml drwy'r system newydd o Chwilio'r Llyfrgell ac mae'n golygu na ddylech orfod disgwyl mwy na 7 diwrnod i gael yr eitem rydych ei angen cyn belled â bod y benthyciwr cyfredol yn dod â'r eitem yn ôl mewn pryd.